

Cyflwynwyd yr ymateb i ymgynghoriad y [Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) ar y [effaith pandemig COVID-19, a'i reolaeth, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru](#)

This response was submitted to the [Health and Social Care Committee](#) consultation on [the impact of the COVID-19 pandemic, and its management, on health and social care in Wales](#)

COV 08

Ymateb gan: | Response from: Sefydliad Prydeinig y Galon Cymru | British Heart Foundation Cymru





British Heart
Foundation
Cymru

Sut allwn ni ailgodi'n gryfach?

Effaith Pandemig Covid-19 ar
wasanaethau cardiaidd yng Nghymru



Cyflwyniad

Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith enfawr ar bob agwedd ar fywyd yng Nghymru. Ni theimlwyd yr effaith yn fwy yn unman nag yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol ac nid yw cardioleg yn eithriad. Fodd bynnag, oherwydd natur gyfyngedig y gwaith o gasglu a defnyddio data yng Nghymru, nid yw'r darlun llawn gennym. Mae BHF Cymru wedi datblygu'r briff gwybodaeth hwn i amlinellu yr hyn a wyddom am effaith Covid-19 ar bobl sydd â chlefydau'r galon a chylchrediad y gwaed, a phobl y mae mwy o berygl na'r cyffredin iddynt ddatblygu'r cyflyrau hyn.

Ym mis Mawrth 2021 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Datganiad Ansawdd ar gyfer Cyflyrau ar y Galon. Mae'r datganiad hwn yn adlewyrchu blaenoriaethau clinigol a blaenoriaeth ar gyfer cleifion er mwyn gwella'r ffordd o ddarparu gwasanaethau yng Nghymruⁱ. Er mwyn gwireddu'r uchelgeisiau hyn, ac er mwyn i wasanaethau cardiaidd ailgodi ar ôl y pandemig, mae'n hanfodol bod y cynllun clinigol ar gyfer clefyd y galon yn uchelgeisiol a wir yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Datganiad Ansawdd ar gyfer Cyflyrau ar y Galon.

Canfod a rheoli cyflyrau risg uchel

Mae'n hanfodol bod ffactorau risg clefydau'r galon a chylchrediad y gwaed yn cael eu canfod a'u rheoli'n gynnar er mwyn atal y clefyd rhag datblygu a gall hynny helpu pobl i fyw bywydau hirach ac iachach. Ond mae gormod o bobl yn dal i fyw gyda chyflyrau iechyd sydd heb eu diagnosis ac mae hyn yn golygu eu bod gryn dipyn yn fwy tebygol o ddatblygu cyflyrau ar y galon a chylchrediad y gwaed, fel pwysedd gwaed uchel, colesterol uchel a ffibriliad atrïaidd (AF).

Heb ymdrechion dygn i ganfod a rheoli pwysedd gwaed uchel, colesterol uchel ac AF, bydd pobl â'r ffactorau risg hyn yn dal yn fwy tebygol o ddatblygu clefydau'r galon a chylchrediad y gwaed.

Yn aml, does dim symptomau i gyflyrau risg uchel ac felly, yn aml, cânt eu canfod ar hap fel rhan o elfennau eraill o ofal rheolaidd, fel ymweliadau â'r meddyg teulu. Gan nad oedd llawer o bobl yn mynd at eu meddyg teulu yn ystod y cyfnodau clo, mae'n debyg bod llai o gyfleoedd i ddiagnosisio cyflyrau risg uchel.

Mae'r Datganiad Ansawdd ar gyfer Cyflyrau ar y Galon yn sôn am bwysigrwydd canolbwyntio ar cyflyrau risg uchel. Wrth gynllunio i ailgodi, mae cymryd camau i wella'r ffordd y caiff y cyflyrau hyn eu canfod a'u rheoli yn gyfle i atal clefydau'r galon, i helpu pobl Cymru i fyw'n iach am fwy o amser ac i dynnu peth o'r pwysau oddi ar y GIGⁱⁱ.



Tarfu ar y llwybr cleifion cyfan

Yn ôl Grŵp Cyngori Technegol Llywodraeth Cymru, roedd marwolaethau o glefyd coronaidd y galon 4% yn is nag y disgwyliid fel arfer yn y cyfnod rhwng Mawrth 2020 a Ionawr 2021ⁱⁱⁱ. Felly, nid yw'n ymddangos hyd yma bod y tarfu a fu ar y llwybr cleifion wedi arwain at farwolaethau ychwanegol y gellir eu priodoli i glefyd y galon yng Nghymru. Yn hytrach, mae'r pandemig wedi effeithio ar gleifion trwy ohirio triniaethau a thorri ar eu traws. Ataliwyd gwasanaethau a drefnir ymlaen llaw ond parhaodd gofal brys a gofal argyfwng, gan gynnwys trin trawiadau ar y galon, arrhythmias, methiant y galon a chynnyg gofal cardiaidd brys. Penderfynwyd rhoi'r gorau i rai gwasanaethau am nad oedd digon o staff ar gael ac am fod awydd i leihau nifer y cleifion allanol fel bod llai o bobl yn mynd a dod i'r ysbytai.

Mae cleifion yn aros yn hirach am brofion diagnostig

Mae Covid-19 wedi amlygu rhwystrau a oedd eisoes yn bodoli i sicrhau diagnosis cynnar ar gyfer clefydau'r galon a chylchrediad y gwaed. Mae cynnydd mewn atgyfeiriadau o leoliadau gofal sylfaenol a phrinder staff diagnostig ym maes ffisioleg gardiaidd cyn ac yn ystod y pandemig wedi golygu cynnydd ychwanegol yn yr amserau aros ar gyfer profion cardiaidd yng Nghymru.



Astudiaeth Achos: Ecocardiogramau symudol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Betsi Cadwaladr^{iv}

Yn BIP Betsi Cadwaladr, aeth y Tîm Cardiaidd Cymunedol â'u Clinigau Eco-ddiagnostig i gartrefi cleifion a atgyfeiriwyd i'w profi gan feddygon teulu oedd yn tybio eu bod yn dioddef o fethiant y galon. Felly, roedd llai o gleifion allanol yn dod i'r ysbytai ond roedd cleifion yn dal i gael profion diagnostig pwysig.

Mae'r pandemig wedi effeithio'n ddifrifol ar wasanaethau delweddu diagnostig yng Nghymru. Roedd dros 12,000 o gleifion yn aros am ecocardiogram ddiwedd Ebrill 2021, o'i gymharu â 7,552 ddiwedd Chwefror 2020^v. Mae'r GIG yng Nghymru wedi dechrau mynd i'r afael â'r mater ac mae'r rhestrau yn byrhau yn gyson, er nad ydynt wedi cyrraedd y lefelau cyn y pandemig eto^{vi}. Dywed clinigwyr mai'r brif her yng Nghymru yw'r amser y mae pobl yn aros, yn hytrach na maint y rhestrau aros diagnostig, sydd o dan reolaeth yn ôl pob sôn.



Astudiaeth Achos: Clinig Methiant y Galon BIP Bae Abertawe

Yn BIP Bae Abertawe, symudwyd gwasanaethau methiant y galon i glinig methiant y galon yn Ysbyty Cymunedol Gorseinon fel y gallai cleifion barhau i dderbyn y gwasanaethau wyneb yn wyneb angenrheidiol. Roedd cleifion ar eu hennill o gael sylw timau amlddisgyblaethol a gwell gwasanaethau trwy fodel integredig o ofal sylfaenol a gofal cymunedol. Bu'r clinig yn defnyddio mwy nag arfer o beptid natriwretig math B (BNP) i frysbennu cleifion. O'r herwydd, cafwyd gwell mynediad at ecocardiogramau, diagnosis cynt, llai o bobl yn gorfod mynd yn ôl i'r ysbyty a llai'n marw. Roedd hefyd yn golygu bod cleifion â methiant y galon yn llai tebygol o gael Covid-19 na phe baent wedi mynd i Ysbyty Treforys.

Er i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ym mis Mehefin 2021 bod cyllid i'w gael ar gyfer offer diagnostig, y prif rwystri ddiagnosis cynnar yw prinder gweithwyr i ddefnyddio'r offer. Mewn cardioleg, gwneir profion diagnostig gan amlaf gan ffisiolegydd cardiaidd ac, yng Nghymru, mae prinder ohonynt ers amser gyda llawer o fyrdau iechyd yn dibynnu ar weithwyr locwm, sy'n gostus ac yn anghynaliadwy. Mae'r Grŵp Gweithredu ar gyfer Cyflyrau ar y Galon (HCIG) wrthi'n cydweithio ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i geisio mynd i'r afael â hyn, ond mae'r problemau'n rhai hirsefydlog a bydd angen cynllun dan gyfarwyddyd cenedlaethol i gynnig mwy o hyfforddiant a llenwi bylchau yn y gweithlu. Er mwyn adfer gwasanaethau diagnostig yng Nghymru i'r lefelau cyn Covid ac yn well na hynny, mae'n rhaid cael rhagor o ffisiolegwyr cardiaidd i weithio yng Nghymru.

Mae cleifion yn aros yn hirach am driniaeth

Bu pobl sy'n disgwyl triniaeth yn aros yn hirach nag arfer. Yn ystod y pandemig, cynyddodd nifer y cleifion oedd wedi aros dros 36 wythnos am lawdriniaeth neu driniaethau cardiaidd o 210 ym mis Ionawr 2020 i 5,595 ym mis Tachwedd 2020. Mae'r GIG yng Nghymru wedi dechrau mynd i'r afael â'r amser y mae pobl yn aros am eu triniaeth ac, erbyn diwedd Ebrill 2021, roedd nifer y bobl oedd wedi aros dros 36 wythnos wedi gostwng i 4,295. Er bod y GIG yn gweithio'n eithriadol o galed i sicrhau nad yw cleifion yn aros mor hir am driniaeth, mae yna oedi o hyd. Felly, dylid cynnig cymorth i gleifion gadw'n iach wrth aros fel rhan allweddol o adferiad y GIG yng Nghymru^{vii}.



Mae clefydau'r galon a chylchrediad y gwaed yn dal i achosi 1 o bob 4 marwolaeth yng Nghymru



Astudiaeth Achos: Diwallu Anghenion Brys yn BIP Aneurin Bevan

Mae clinigwyr yn BIP Aneurin Bevan wedi bod yn asesu cleifion sy'n aros am driniaeth ar sail y risg sydd iddynt. Mae hyn yn golygu bod y cleifion sy'n fwyaf tebygol o gael salwch difrifol neu farw yn gorfod aros am lai o amser.

Dylid darparu gwasanaethau adsefydlu cardiaidd trwy fodel hybrid mwy personol, gyda 'dewislen'. Byddai'n cynnwys asesiad wyneb yn wyneb ac yna raglen adsefydlu wyneb yn wyneb neu ddigidol lle bo hynny'n briodol. Mae ymarferwyr wedi mynegi diddordeb mewn parhau i ddarparu'r model gofal hwn gyda 'dewislen' ar gyfer cleifion adsefydlu cardiaidd gyda'r nod o sicrhau bod rhagor o gleifion yn cymryd rhan a chynnig sesiynau digidol i gleifion os credir bod hynny'n addas iddynt o safbwynt clinigol^{ix}. Mae dull 'dewislen' yn sicrhau bod rhagor o bobl yn gallu elwa ar y rhaglen a bod anghenion unigol cleifion yn cael eu diwallu, boed yn ddigidol neu wyneb yn wyneb.


Newidiadau i drefniadau adsefydlu cardiaidd

Mae'r pandemig wedi effeithio'n fawr ar drefniadau adsefydlu cardiaidd yng Nghymru, gan fod canolfannau hamdden a champfeydd ac ati wedi cau a bod staff cardiaidd arbenigol wedi'u symud i wardiau Covid-19. Doedd dim modd i staff adsefydlu cardiaidd ledled Cymru weld eu cleifion wyneb yn wyneb tan fis Rhagfyr 2020 ac felly dechreuwyd cynnig gwasanaethau digidol. Er nad yw rhaglen ddigidol yn addas i bob claf, mae llawer o glinigwyr yn dweud bod rhagor o bobl yn cymryd rhan mewn sesiynau adsefydlu cardiaidd am eu bod ar gael yn ddigidol.



Astudiaeth Achos: Hyb y BHF ar gyfer Adsefydlu Cardiaidd yn y Cartref^{viii}

Cafodd Hyb Adsefydlu Cardiaidd yn y Cartref y BHF, sy'n llawn gwybodaeth am wneud ymarfer corff yn ddiogel, bwyta'n iach a meddyginiaethau, ei sefydlu i helpu cleifion i barhau â'u rhaglen adsefydlu pan nad oedd gwasanaethau ar gael. Mae'r Hyb yn rhoi gwybodaeth am wahanol agweddau ar adsefydlu fel ymarfer corff a sicrhau cefnogaeth emosiynol.



Ailgodi'n Gryfach: Dyfodol Gwasanaethau Clefydau'r Galon a Chylchrediad y Gwaed

1. Dylai Llywodraeth Cymru weithio, trwy Rwydwaith y Galon Cymru, i sicrhau bod y cynllun clinigol ar gyfer clefydau'r galon yn uchelgeisiol, yn cael ei ariannu'n llawn a'i fod yn adlewyrchiad cywir o'r blaenoriaethau a nodir yn y Datganiad Ansawdd ar gyfer Cyflyrau ar y Galon. Rhaid i'r blaenoriaethau hyn gynnwys:

- Gwella'r gwaith o ganfod cyflyrau risg uchel a'r gefnogaeth a roddir i'w rheoli.
- Sicrhau llai o amrywiadau mewn gofal trwy sicrhau mynediad teg at Lwybrau'r Galon Cymru Gyfan, sy'n rhoi'r gofal gorau posibl i gleifion ledled Cymru. Bydd hyn yn dibynnu ar gael gweithlu digonol, yn enwedig nyrsys arbenigol.
- Cymryd camau i wella'r gwaith o gasglu, rhannu a defnyddio data.

2. Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â'r Grŵp Gweithredu ar gyfer Cyflyrau ar y Galon (HCIG) ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i fynd i'r afael â'r bylchau yn y gweithlu ffisioleg gardiaidd er mwyn gwella gwasanaethau diagnostig.

3. Dylai'r GIG yng Nghymru barhau i gynnig trefniadau adsefydlu cardiaidd sy'n fwy personol ac sy'n cynnwys 'dewislen' gan gynnwys sesiynau wyneb yn wyneb a rhai digidol o'r un ansawdd.

ⁱ Llywodraeth Cymru, 'Y Datganiad Ansawdd ar gyfer Cyflyrau ar y Galon', Llywodraeth Cymru, 2021, <https://bit.ly/3yEUTKa> (cyrchwyd 30 Mehefin 2021).

ⁱⁱ BHF, 'Heart failure: a blueprint for change', British Heart Foundation, 2020, <https://bit.ly/3A9bPud> (cyrchwyd 30 Mehefin 2021).

ⁱⁱⁱ Grŵp Cynghori Technegol Llywodraeth Cymru: 'Archwilio Marwolaethau Cysylltiedig â COVID-19 yng Nghymru', Llywodraeth Cymru, 2021, <https://bit.ly/3wteMCU> (cyrchwyd 30 Mehefin 2021).

^{iv} BIP Betsi Cadwaladr, 'Mobile heart clinics continuing to provide vital care for patients during COVID-19', <https://bit.ly/3dX6j4p> (cyrchwyd 30 Mehefin 2021).

^v StatsCymru, 'Amseroedd Aros Gwasanaethau Diagnostig a Therapi yn ôl Wythnos', Llywodraeth Cymru, 2021, <https://bit.ly/3xs5tnQ> (cyrchwyd 30 Mehefin 2021).

^{vi} Ibid.

^{vii} StatsCymru, 'Amserau Aros Ysbyta'i'r GIG – atgyfeirio am driniaeth', Llywodraeth Cymru, 2021, <https://bit.ly/3ywjf40> (cyrchwyd 30 Mehefin 2021).

^{viii} BHF, 'Cardiac Rehab at Home', British Heart Foundation, 2020, <https://bit.ly/3xr3NLa> (cyrchwyd 7 Gorffennaf 2021). Gwybodaeth Gymraeg:

<https://www.bhf.org.uk/information-support/support/eich-calon-a-chi>.

^{ix} Hassan Al-Kaabi, 'COVID 19 has meant a new beginning for early Cardiac Rehabilitation', North Gwent Cardiac Rehabilitation and Aftercare Charity, <https://bit.ly/3hg4qjY> (cyrchwyd 30 Mehefin 2021).